Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

Stafell Ddu

Tasgau grŵp Pennod Pedwar

1. Geiriau unigol

Rhowch **unigol** y geiriau lluosog hyn:

a	cerrig
b	gerddi
c	anturiaethau
ch	blynedd
d	synau
dd	lloriau
e	dwylo
f	dyrnau

2. Geiriau pwysig

Mewn grŵp bach trafodwch beth yw arwyddocâd y geiriau hyn i'r stori:

a	cwrteisi
b	teulu
c	meini a cherrig
ch	tawelwch
d	tortsh
dd	coridorau
e	oerni
f	drws

Parallel.cymru

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
WELSH BOOKS COUNCIL

Cyfres Amdani: Cawl- Ymestynnwch eich Cymraeg gyda Jo Knell

Tasgau i unigolion Pennod Pedwar

1. Cywiro brawddegau

Cywirwch y camgymeriad iaith ymhob un o'r brawddegau hyn:

a	Doedd Mari ddim wedi meistroli'r grefft o fod gwrtais.
b	Erbyn hyn dw i wedi hen arfer sbio allan drwy ffenest y lolfa a gweld torf o tua ugain o bobol yn edrych yn ôl i fi.
c	Dw i'n sefyll yn ôl ac estyn fy mraich i ei arwain i mewn.
ch	Mae Seimon yn gwenu fel blentyn.
d	'Y plant, er engraifft, efo'u Playstations!'
dd	Bod yn ofalus, Seimon, tydi'r cerrig ar y llawr ddim yn berffaith esmwyth.
e	Mae'n debyg bod hon oedd y stordy yn yr hen fynachdy ers talwm.
f	Wedi'r cyfan, does dim byd yn bwysicach na gwrteisi.

2. Y stori

Dyma grynodeb o ddigwyddiadau'r stori. Mae wyth brawddeg ond mae dwy frawddeg yn anghywir. Pa ddwy?

a	Roedd teulu'r dyn yn mwynhau byw yn Nhŷ'r Wennol ar y dechrau.
b	Mae llawer o bobl yn syllu ar y tŷ o'r tu allan ac yn tynnu lluniau.
c	Mae Seimon yn cael mynd i mewn i weld y tŷ.
ch	Mae Seimon yn crwydro o gwmpas y tŷ ar ei ben ei hun.
d	Mae'r dyn yn dweud bod rhannau o'r tŷ dros fil o flynyddoedd oed.
dd	Mae'r dyn yn cysuro Seimon nad oes ysbrydion yn tŷ.
e	Mae'r dyn yn gwthio Seimon i mewn i'r Stafell Ddu.
f	Rydyn ni'n dysgu beth fydd yn digwydd i Seimon yn trwy ddychymyg y dyn.